

# Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddPLI](http://www.senedd.cymru/SeneddPLI)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor y Llywydd**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddPLI@senedd.cymru](mailto:SeneddPLI@senedd.cymru)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24

Tachwedd 2022



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddPLI](http://www.senedd.cymru/SeneddPLI)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
David Rees AS**  
Llafur Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**  
Plaid Cymru



**Llyr Gruffydd AS\***  
Plaid Cymru



**Joyce Watson AS**  
Llafur Cymru

\* Roedd Llyr Gruffydd AS yn bresennol fel dirprwy i Rhys ab Owen AS yn ystod yr ymchwiliad hwn.

---

Roedd Rhys ab Owen AS hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn; ni chymerodd ran yn unrhyw un o ystyriaethau'r ymchwiliad fodd bynnag.



**Rhys ab Owen AS**  
Aelod Annibynnol Plaid Cymru

## Cynnwys

<b>Casgliadau ac Argymhellion .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>6</b>
Cyd-destun cefndirol i graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol .....	6
Cyflwyno amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24 .....	7
Cytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid .....	8
<b>2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24.....</b>	<b>9</b>
Cyfrifon y Comisiwn 2021-22 .....	9
Amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol 2023-24 .....	10
Adroddiadau gan y Comisiwn.....	12
Adroddiad ar y Cynllun Peilot Pleidleisio Cynnar .....	12
Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.....	13
Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol .....	15
Safbwynt y Pwyllgor .....	15
<b>Atodiad A: Yr Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2023-24 .....</b>	<b>18</b>

---



## Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru..... Tudalen 16

**Casgliad 2.** Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol..... Tudalen 16

**Casgliad 3.** Ni fyddai'r Pwyllgor am weld cynnydd yn y gwaelodlin hwn yn ystod y blynyddoedd nesaf, a byddai'n disgwyl na fyddai cynnydd sylweddol yn y gwaelodlin pan fydd y gyfres nesaf o etholiadau Cymru yn cael ei gweinyddu. At hynny, pan ddaw gweithgareddau'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd fel diwygio'r Senedd i ben, hoffai'r Pwyllgor weld gostyngiad yn y llinell sylfaen Amcangyfrif..... Tudalen 16

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys alldroeon gwirioneddol a rhagamcanol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif i'r Pwyllgor. Dylai'r alldro hwn gyfateb i fformat y Prif Amcangyfrif er mwyn caniatáu ar gyfer craffu effeithiol.Tudalen 16

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn datblygu cyfres o fesuriadau i werthuso a yw'r buddsoddiad ychwanegol mewn rheoleiddio yn cynnig gwerth am arian..... Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi amlinelliad o'r bwriad ar gyfer y swydd a grëwyd ar gyfer ymdrin â'r agenda etholiadol a diwygio'r Senedd unwaith y bydd y ddeddfwriaeth wedi'i chwblhau'n gliriach..... Tudalen 17

## 1. Cyflwyniad

Dyma adroddiad Pwyllgor y Llywydd ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24.

### **Cyd-destun cefndirol i graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol**

**1.** Mae gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn cael ei ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Pwyllgor y Llywydd – sy'n un o bwyllgorau'r Senedd – sy'n gyfrifol am graffu ar faint o arian y gofynnir amdano at y diben hwn fel y nodir yn yr amcangyfrifon ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor bob blwyddyn gan y Comisiwn Etholiadol. At hynny, mae Pwyllgor y Llywydd yn gyfrifol am graffu ar gynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â'i waith ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru.

**2.** Mae Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B y Senedd yn nodi fel a ganlyn:

*"Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif o'i incwm a'i wariant y gellir ei briodoli i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, i Bwyllgor y Llywydd o dan Reol Sefydlog 18B.2 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ond erbyn 1 Hydref fan bellaf." (20.20A)*

*"Rhaid i Bwyllgor y Llywydd:*

- (i) ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac ystyried unrhyw gyngor a roddwyd iddo ganddynt, a;*
- (ii) ar ôl rhoi sylw i unrhyw adroddiadau a wnaed iddo gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau;*

*ystyried a gosod gerbron y Senedd, heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrif, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n*



*briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.*"<sup>1</sup> (20.20B)

3. Ar rai adegau (h.y. yn dilyn etholiad y Senedd neu ar gais Pwyllgor y Llywydd ("y Pwyllgor") rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ("y Comisiwn") hefyd gyflwyno i'r Pwyllgor gynllun pum mlynedd sy'n amlinellu nodau ac amcanion y Comisiwn mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn y cyfnod nesaf o bum mlynedd. Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r cynllun yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2021 ac yn nodi bod y Comisiwn wedi gwneud nifer o fân newidiadau i'r cynllun hwn yn ystod 2021-22.
4. Rhaid i'r Pwyllgor graffu ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â rôl y Comisiwn o ran cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru yn effeithlon ac yn effeithiol.
5. Yna, bydd yr amcangyfrif a osodir gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 20.20B ymddangos yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol, i'w gytuno gan Senedd Cymru.<sup>2</sup>

### **Cyflwyno amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24**

---

6. Cyflwynodd y Comisiwn ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor ar 30 Medi 2022.
7. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2022 i graffu ar yr amcangyfrif a cynllun. Roedd cynrychiolwyr canlynol o'r Comisiwn yn bresennol yn y cyfarfod:
  - Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE (Comisiynydd Etholiadol Cymru)
  - Shaun McNally CBE (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu)
  - Kieran Rix (Cyfarwyddwr Cyllid)
  - Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru)
8. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan Weinidogion Cymru, cyn penderfynu a yw'n fodlon â'r amcangyfrifon a'r cynlluniau. Rhannodd y Pwyllgor amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2023-24 gyda'r Cwnsler Cyffredinol a

---

<sup>1</sup> Y Senedd, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B.

<sup>2</sup> Gweler **Rheol Sefydlog** 20 am esboniad o broses cyllideb y Senedd.

---

Gweinidog y Cyfansoddiad a hefyd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 3 Hydref 2022. Derbyniwyd cyngor y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar 19 Hydref 2022.<sup>3</sup>

## **Cytuno ar Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid**

---

**9.** Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cyhoeddi set o egwyddorion, a elwir yn **Ddatganiad o Egwyddorion**, ei fod yn disgwyl i gyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ystyried wrth wneud cynigion cyllidebol, e.e. y dylid gosod ceisiadau am y Gyllideb yng nghyd-destun, y sefyllfa ariannol hirdymor yng Nghymru a phwysau ariannu yn y sector cyhoeddus yn fwy eang. Mae'r Comisiwn yn un corff o'r fath a gofynnwyd iddo gadw at yr egwyddorion hyn wrth baratoi ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i fabwysiadu datganiad o egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, fel sail i'w waith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn.

---

<sup>3</sup> Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, **Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**, 19 Hydref 2022.

---

## 2. Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2023-24

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwaith craffu'r Pwyllgor ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

**10.** Cyfanswm yr amcangyfrif a gyflwynwyd gan y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 oedd £1.414 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.4 y cant o'i gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer 2022-23 (er nad yw hyn yn cyfrif am y cyllid ychwanegol a geisir gan y Comisiwn drwy'r gyllideb atodol sydd i'w hystyried ym mis Chwefror 2023 – a fyddai'n golygu, pe bai'n cael ei chymeradwyo, gostyngiad o 8.2%). Mae'r amcangyfrif yn Atodiad A.

### Cyfrifon y Comisiwn 2021-22

**11.** Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22<sup>4</sup> a gosododd hyn gerbron y Senedd ar 19 Gorffennaf 2022. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol Cymru (datganoledig)<sup>5</sup> ar gyfer 2021-22, a oedd yn amlinellu cyflawniadau allweddol y Comisiwn yng Nghymru, ac roedd hefyd yn darparu dadansoddiad o wariant ar ddefnyddio ei adnoddau mewn cysylltiad â gweithgareddau yng Nghymru.

**12.** Yn ôl yr adroddiad, roedd y Comisiwn wedi defnyddio £1.65 miliwn o adnoddau o'r £1.75 miliwn oedd ar gael. Mae hyn yn cynrychioli tanwariant o £96,000 (neu 5.5%).

**13.** Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei wariant o dan ddau bennawd: staffio £1.15 miliwn; ac Ymgyrchoedd £0.5 miliwn. Mae hyn yn wahanol i'r ffordd y mae'n cyflwyno ei amcangyfrifon. Nododd y Pwyllgor fod hyn yn ei gwneud yn anodd dadansoddi alldro ar yr un sail â'r amcangyfrifon a gyflwynwyd.

**14.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn sut yr oedd yn trin y tanwariant o £96,000. Eglurodd Kieran Rix, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y Comisiwn fod y tanwariant hwn wedi digwydd am y rhesymau a ganlyn:

---

<sup>4</sup> [www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/amdanom-ni/ein-cynlluniau-blaenoriaethau/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-2021/22](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/amdanom-ni/ein-cynlluniau-blaenoriaethau/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-2021/22)

<sup>5</sup> [www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/amdanom-ni/ein-cynlluniau-blaenoriaethau/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-2021/22/adroddiad-blynyddol-datganoledig-cymru-2021/22](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/amdanom-ni/ein-cynlluniau-blaenoriaethau/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-2021/22/adroddiad-blynyddol-datganoledig-cymru-2021/22)

---

*"... a result of lower than expected costs for producing guidance and for campaigns and depreciation, and therefore we were able to not draw down that funding. So, that's funding that has stayed in Wales and not come to the Commission."*<sup>6</sup>

**15.** Er bod data alldro yn cael ei gyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol yn unol â chanllawiau cyfrifo, nododd y Pwyllgor hefyd nad yw'n cael ei gynnwys yn yr amcangyfrif blynyddol i'r Pwyllgor. Croesawodd y Pwyllgor yr ymrwymiad gan Shaun McNally i ddarparu alldroeon rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif fel y gall y Pwyllgor graffu ar ei wariant hyd yma.

### **Amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol 2023-24**

**16.** Amcangyfrifir bod cyfanswm y cyfraniad sydd ei angen ar y Comisiwn gan Gronfa Gyfunol Cymru yn £1.414 miliwn ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o £5,000 (0.4 y cant) mewn termau arian parod o'i gymharu ag amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2022-23 (er nad yw hyn yn adlewyrchu'r cais a wnaed gan y Comisiwn am gyllid trwy amcangyfrif atodol yn 2022-23, a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o gyllideb atodol mis Chwefror 2023).

**17.** Nododd y Pwyllgor fod y gostyngiad yn y gyllideb yn llai nag y disgwyliid o bosibl o ystyried bod Amcangyfrif y llynedd yn cynnwys arian i weinyddu Etholiadau Lleol mis Mai 2022 yng Nghymru. Wrth gael ei holi am y gostyngiad dibwys hwn dywedodd Shaun McNally fod un neu ddau o brif ffactorau sy'n rheoli'r costau gan gynnwys canllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ar sut i drin chwyddiant a chaniatáu ar ei gyfer (sy'n gosod y lefel ar 3.1 y cant), y gwaith i gefnogi diwygio etholiadol yng Nghymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran rheoleiddio<sup>7</sup>.

**18.** O ystyried y posibilrwydd y gallai dau ddarn go gynhwysfawr o ddeddfwriaeth gael eu pasio (o ganlyniad i'r papur Gwyn ar Etholiadau gan Lywodraeth Cymru ac ar wahân, diwygio'r Senedd), o ran diwygio etholiadol, dywedodd Rhydian Thomas fod y Comisiwn:

*"... want to make sure that we've got the resource that is required to scrutinise and to respond to those two pretty significant pieces of work in the detail that is required."*<sup>8</sup>

**19.** Nododd y Pwyllgor fod yr Amcangyfrif yn cynnwys £187,000 ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio, sy'n gynydd o 70 y cant (£77,000) ar y cyllid ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 55

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 69

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 71

Cwestiynodd y Pwyllgor y Comisiwn am y rhesymau dros y cynnydd hwn. Eglurodd Shaun McNally mai nod y cynnydd hwn oedd cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i:

*"... help and to support campaigners in political parties to comply with the regulations rather than pivot to enforcement, and that requires an investment up front."*<sup>9</sup>

**20.** Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall a fyddai hon yn gost untro mewn perthynas â newid y dull o reoleiddio neu a fyddai'n gost ailadroddus. Esboniodd Shaun McNally mai ei nod oedd newid diwylliant, ond na fyddai am ymrwymo iddo fod yn gost untro gan y byddai am i'r Comisiwn wneud yr hyn a ganlyn:

*"... move more into the area of help and support to encourage compliance, rather than focus on after the event with enforcement for failure to comply with the regulations."*<sup>10</sup>

**21.** Nododd y Pwyllgor sylwadau'r Comisiwn yn hyn o beth, ond roedd ganddo rai pryderon am sut i sicrhau bod gwerth yn y buddsoddiad sylweddol uwch hwn o ran rheoleiddio. Croesawodd y Pwyllgor addewid y Comisiwn i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

**22.** Mae'r Amcangyfrif yn adlewyrchu rhagolygon chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o 3.1 y cant. Cwestiynodd y Pwyllgor y Comisiwn o ran pa ystyriaeth a roddwyd i arbedion effeithlonrwydd posibl i liniaru pwysau costau chwyddiant er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrif yn cyd-fynd â disgwyliadau gwariant cyhoeddus. Nododd y Pwyllgor y camau lliniaru a amlinellwyd gan y Comisiwn fel newid i oleuadau mwy effeithlon ran o ynni a chyfrifiadura cwmwl, a chroesawodd y sicrwydd a roddwyd nad oedd y Comisiwn yn rhagweld cyflwyno Amcangyfrif Atodol yn 2023-24.

**23.** Roedd y costau dibrisiant yn amcangyfrif y Comisiwn wedi cynyddu £52,000 (69.3 y cant) mewn termau arian parod o'i gymharu ag Amcangyfrif 2022-23 o ganlyniad i'r gyllideb cyfalaf uwch. Yn ôl y memorandwm gan y Comisiwn:

*"The capital delivery increases, are due to our new technology plans of refitting and moving to new larger building leases for our Cardiff and Belfast offices. reflects both any fit-out costs and the total value today of the whole lease."*<sup>11</sup>

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 69

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 74

<sup>11</sup> Gomisiwn Etholiadol Cymru memorandwm, Hydref 2022

---

**24.** Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi cymryd prydles ar gyfer safle mwy. Mynegodd y Pwyllgor bryder na allai hyn fod yn unol â'r newid i lefelau uwch o weithio gartref ar draws sefydliadau yn fwy cyffredinol. Eglurodd Rhydian Thomas nad yw'r swyddfa bresennol yn ddigonol i gynnwys lefel y staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Ar ben hynny, dywedodd Kieran Rix fod y Comisiwn yn gwneud yr hyn a ganlyn:

*"... increasingly trying to recruit outside of London. That's across the UK, but we do see Cardiff as a particularly kind of fruitful area to be recruiting in, and as a kind of centre to recruit to. So, we're looking to grow the office so that it can support significantly more staff, not just the Wales team, but colleagues from all functions across the commission, and that's one of the reasons why we want to invest in the Wales office."*<sup>12</sup>

**25.** Cadarnhaodd y Pwyllgor gyda'r Comisiwn fod costau swyddfa unrhyw staff sydd wedi'u lleoli yn Swyddfa Cymru ond nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol i Gomisiwn Etholiadol Cymru yn cael eu dosrannu i ran briodol y DU.

## **Adroddiadau gan y Comisiwn**

**26.** Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf cynhyrnodd y Comisiwn adroddiadau ar y cynllun peilot pleidleisio cynnar; a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru), a wnaeth ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022.

## **Adroddiad ar y Cynllun Peilot Pleidleisio Cynnar**

---

**27.** Canfu'r Comisiwn fod y cynlluniau peilot yn cael eu rhedeg yn dda gan Swyddogion Canlyniadau. Nododd yr adroddiad ymhellach:

*"Nid oedd dim problemau sylweddol ar y dyddiau pleidleisio ymlaen llaw nac ar ddydd Iau 5 Mai ac roedd y pleidleiswyr yn fodlon â'u profiad pleidleisio. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos nad yw'r cyfle i bleidleisio'n bersonol cyn y diwrnod pleidleisio, ar ei ben ei hun, yn rhoi hwb sylweddol i'r nifer sy'n pleidleisio."*<sup>13</sup>

---

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 92

<sup>13</sup> [www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/etholiadau-a-refferenda/etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/etholiadau-cynghorau-lleol-cymru/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/etholiadau-a-refferenda/etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/etholiadau-cynghorau-lleol-cymru/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru)

---

**28.** Nododd yr adroddiad “er bod nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd yn gynnar yn isel, cafodd yr opsiwn ei groesawu gan y rhai a’i defnyddiodd ac mae’n cynnig dewis ychwanegol i bleidleiswyr”.

**29.** Canfu gwerthusiad y Comisiwn amryw o feysydd penodol y mae angen mynd i’r afael â nhw os ystyrir ehangu’r opsiwn o bleidleisio ymlaen llaw ymhellach.

## **Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**

---

**30.** Galluogodd Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) i bobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor bleidleisio yn etholiadau’r Senedd am y tro cyntaf. Daeth y darpariaethau ar gyfer estyn yr etholfraint i’r grwpiau hyn i rym ar gyfer etholiadau a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

**31.** Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad<sup>14</sup> ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru ym mis Medi 2022. Cyhoeddodd erthygl hefyd<sup>15</sup> ynghylch ymgysylltiad pobl ifanc 16-17 oed ag etholiadau llywodraeth leol. Roedd hwn yn dweud bod angen “mwy o addysg ac ymgysylltu i gefnogi pleidleiswyr ifanc i ddeall a chyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru”. Tynnodd y canfyddiadau sylw at y ffaith mai dim ond un o bob pump o bobl ifanc 16-17 oed yng Nghymru a gofrestrodd i bleidleisio cyn yr etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a bod llawer o bobl ifanc yn teimlo bod angen mwy o addysg yn y maes hwn.

**32.** Nododd yr adroddiad hefyd, mewn perthynas â data etholiadol etholiad Lleol Cymru 2022 sy’n cefnogi’r adroddiad:

*“Mae'r data ar geisiadau gan wladolion tramor sydd newydd ddod yn gymwys yn cynnwys ceisiadau gan y rheiny sydd â chenedligrwydd deul neu sydd o nifer o genhedloedd, hyd yn oed lle byddai un neu fwy o'r genhedloedd hyn yn hanesyddol wedi rhoi'r hawl i bleidleisio yn etholiadau'r DU i'r ymgeisydd cyn ymestyn yr etholfraint yng Nghymru. Nid yw'n bosibl gweld o'r data pa gyfran o ymgeiswyr sydd â chenedligrwydd deul, neu sydd o nifer o genhedloedd, sy'n wirioneddol yn wladolion tramor sydd 'newydd ddod yn gymwys' gan na roddir cenedloedd penodol yr ymgeiswyr hyn.”*

---

<sup>14</sup> [www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/etholiadau-a-refferenda/etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/etholiadau-cynghorau-lleol-cymru/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/etholiadau-a-refferenda/etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/etholiadau-cynghorau-lleol-cymru/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru)

<sup>15</sup> [www.electoralcommission.org.uk/cy/media-centre/mae-angen-mwy-o-gefnogaeth-ar-bleidleiswyr-ifanc-yng-nghymru-i-gymryd-rhan-mewn-etholiadau](http://www.electoralcommission.org.uk/cy/media-centre/mae-angen-mwy-o-gefnogaeth-ar-bleidleiswyr-ifanc-yng-nghymru-i-gymryd-rhan-mewn-etholiadau)

---

**33.** Ymchwiliodd y Pwyllgor ymhellach i ba wersi a oedd wedi'u dysgu o'r cynlluniau peilot a chyflwyno grwpiau pleidleisio newydd, a sut roedd y Comisiwn yn bwriadu gwneud defnydd o'r hyn a ddysgwyd yn y dyfodol.

**34.** Er gwaetha'r nifer isel a bleidleisiodd, o ran y cynlluniau peilot pleidleisio cynnar, dywedodd Rhydian Thomas:

*"...the option was welcomed by those voters that used it. But, importantly, the technology behind the system worked effectively, and I think this allows us to consider how this type of work in Wales can be developed, moving forward, especially given what we're seeing and what we saw quite recently from Welsh Government in the White Paper in terms of the ambition that there is in electoral reform in Wales."<sup>16</sup>*

**35.** Nododd y Pwyllgor fod Amcangyfrif y Comisiwn wedi cynnwys darpariaeth i wella'r ddarpariaeth addysg y mae'n ei darparu, o ystyried yr adborth a gafwyd gan bobl ifanc. Dywedodd Rhydian Thomas:

*"There are several key projects that [the Commission is] looking at in the next financial year. I've mentioned already we want to establish a youth voice network in Wales, we want to develop our teacher training materials, and we want to develop all the resources themselves, generally. But that is very much, as I mentioned, where we've got to try and move away from thinking about what young people want to hear just in the run-up to an election."<sup>17</sup>*

**36.** O ran ymgysylltu â gwladolion tramor, dywedodd Rhydian Thomas wrth y Pwyllgor:

*"Identifying foreign nationals who are resident in Wales has been a little bit more challenging. So, we've focused on supporting local authorities across Wales, which have done some really, really good work to engage with foreign nationals at a local level, as well as specific partner groups that know where these groups are and how to reach them, and, also, the best way in which to engage with them. So, as a result of the work with local authorities, we've held various focus groups with representatives of this group, as well as developing resources."<sup>18</sup>*

---

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 117

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 132

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 125

---



**37.** Croesawodd y Pwyllgor y gwaith y mae'r Comisiwn yn gobeithio ei wneud o ran datblygu'r dechnoleg ar gyfer pleidleisio cynnar a'r bwriad i wella addysg ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed. Nododd y Pwyllgor yr anawsterau a nodwyd gan y Comisiwn o ran ymgysylltu â gwladolion tramor, a byddai'n croesawu gweld y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gallai ymgysylltu'n ehangach â gwladolion tramor hefyd.

## **Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol**

**38.** O ganlyniad i'r gwaith craffu ar Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2022-23, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:

*"Argymhelliad 2: The Committee recommends that the Electoral Commission should review the performance measures included in the new five-year plan to ensure they include measures which relate specifically to the objectives for its work on devolved Welsh elections."*<sup>19</sup>

**39.** Cwestiynodd y Pwyllgor y Comisiwn ar sut y cafodd hyn ei ddatblygu ac a oedd yn teimlo ei fod wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn llwyddiannus. Esboniodd Shaun McNally fod y Comisiwn wedi derbyn yr argymhelliad a'i fod o'r farn bod gan y cynllun corfforaethol:

*"the right measures that actually drive the outcomes, and will give us an indication of whether or not we are being successful in the achievement of those aims."*<sup>20</sup>

**40.** Croesawodd y Pwyllgor yr addewid gan y Comisiwn i weithio gyda'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ar adrodd yn erbyn y mesuriadau perfformiad yn y cynllun corfforaethol.

## **Safbwynt y Pwyllgor**

**41.** Nododd y Pwyllgor y rhesymau dros y gostyngiad dibwys yn yr amcangyfrif ar gyfer 2023-24. Er ei fod yn deall y rhesymau dros y cynnydd mewn ceisiadau am arian mewn nifer o feysydd, ac yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig y bydd angen i'r Comisiwn Etholiadol ei wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr Amcangyfrif hwn yn groes i'r gofynion arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus eraill o ganlyniad i ddatganiad cyllidol y DU a wnaed ar 17 Tachwedd 2022.

**42.** Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i feddwl yn ehangach o ran arbedion effeithlonrwydd y gallai eu gwneud yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae pwysau

---

<sup>19</sup> Pwyllgor y Llywydd, Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 143

---

sylweddol yn cael ei roi ar gyrff cyhoeddus, ac mae angen i bob un ohonom wneud cymaint ag y gallwn i fynd i'r afael â'r rhain.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn sicr y bydd angen yr adnodd ychwanegol a nodwyd gan y Comisiwn ar gyfer y gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf sy'n ymwneud ag agenda etholiadol Llywodraeth Cymru a diwygio'r Senedd. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau nad yw hyn wedyn yn cael ei ymgorffori ym mhreif gyllideb y Comisiwn. Sefydlodd y Pwyllgor mewn gohebiaeth ar ôl y cyfarfod fod y ddwy swydd a ddosbarthwyd o dan adnodd penodol yn swyddi parhaol, un yn edrych ar y gwaith addysg a dysgu ac un yn canolbwyntio ar ddiwygio etholiadol yng Nghymru. Hoffai'r Pwyllgor i'r Comisiwn nodi'r bwriad ar gyfer y swyddi a grëwyd ar gyfer ymdrin â'r agenda ddiwygio wedi i'r ddeddfwriaeth gael ei chwblhau'n gliriach. Byddem hefyd yn croesawu sicrwydd gan y Comisiwn ei fod wedi trafod yn llawn gyda Llywodraeth Cymru y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer y gwaith, a bod trefniadau cyllido cywir ar waith gyda'r Llywodraeth.

**44.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dyhead y Comisiwn i ddefnyddio Caerdydd fel lleoliad i recriwtio staff ar gyfer gwahanol rannau o'r Comisiwn. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r cynllun hwn yn dod gydag unrhyw dargedau na mesurau i werthuso'r effeithiolrwydd.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiwn fod yr holl gostau uniongyrchol a gynhwysir yn yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â gwaith y Comisiwn ar etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru.

**Casgliad 2.** Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2023-24 yn gyson â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Casgliad 3.** Ni fyddai'r Pwyllgor am weld cynnydd yn y gwaelodlin hwn yn ystod y blynyddoedd nesaf, a byddai'n disgwyl na fyddai cynnydd sylweddol yn y gwaelodlin pan fydd y gyfres nesaf o etholiadau Cymru yn cael ei gweinyddu. At hynny, pan ddaw gweithgareddau'r Comisiwn mewn perthynas â meysydd fel diwygio'r Senedd i ben, hoffai'r Pwyllgor weld gostyngiad yn y llinell sylfaen Amcangyfrif.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys alldroeon gwirioneddol a rhagamcanol wrth gyflwyno ei Brif Amcangyfrif i'r Pwyllgor. Dylai'r alldro hwn gyfateb i fformat y Prif Amcangyfrif er mwyn caniatáu ar gyfer craffu effeithiol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn datblygu cyfres o fesuriadau i werthuso a yw'r buddsoddiad ychwanegol mewn rheoleiddio yn cynnig gwerth am arian.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi amlinelliad o'r bwriad ar gyfer y swydd a grëwyd ar gyfer ymdrin â'r agenda etholiadol a diwygio'r Senedd unwaith y bydd y ddeddfwriaeth wedi'i chwblhau'n gliriach.

## Atodiad A: Yr Amcangyfrif Ariannol ar gyfer 2023-24

**Tabl 1: Amcangyfrif Blynyddol 2023-24 - Y Comisiwn Etholiadol, Cymru**

<b>Costau'r Senedd</b>	<b>2023-24 (£000s)</b>	<b>Sylwadau</b>
<b>Costau Uniongyrchol (tâl a di-dâl)</b>		
Gweinyddu Etholiadol		
Cymru	249	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau cefnogi datblygiad polisi a deddfwriaeth mewn perthynas â diwygio cyfansoddiadol y Senedd a diwygiadau Llywodraeth Cymru i foderneiddio etholiadau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys rhoi barn arbenigol ar bolisiau a deddfwriaeth ddrafft sy'n ystyried barn y gymuned etholiadol ledled Cymru.</p> <p>Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a darparu canllawiau ar-lein a darparu adnoddau i ymgeiswyr ac asiantau, Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol.</p> <p>Byddwn yn defnyddio ein safonau perfformiad gan ymgysylltu â Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi a herio'r modd y maent yn cyflawni digwyddiadau a gweithgareddau etholiadol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol yng Nghymru trwy'r amryw grwpiau rhanddeiliaid rydym yn eu rheoli, er enghraifft Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Phanel Pleidiau'r Senedd.</p> <p>Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor a barn arbenigol wrth i ddiwygiadau moderneiddio etholiadol pellach gael eu datblygu.</p> <p>Bydd tîm Cymru hefyd yn rhoi adnoddau a chymorth i brosiectau sy'n cael eu cynnal y tu allan i Gymru (e.e. ar adrodd deuol) ond sy'n cael effaith uniongyrchol ar etholiadau datganoledig.</p> <p>Byddwn yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldeb statudol drwy fodloni Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a byddwn yn arwain ac yn cefnogi'r Comisiwn</p>

Costau'r Senedd	2023-24 (£000s)	Sylwadau
		ehangach i sicrhau bod ein hymrwymiaadau i'r Gymraeg yn cael eu cynnal.
Cefnogaeth a Gwelliant	18	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi monitro a chefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflawni eu swyddogaethau cofrestru etholiadol statudol. Mae hefyd yn cynnwys parhau i adolygu'r Safonau Perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod newidiadau deddfwriaethol perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y fframweithiau safonau perfformiad.
Canllawiau	45	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys diweddarau ein cyfres o ganllawiau ac adnoddau craidd yn ôl yr angen yng ngoleuni adborth a/neu newidiadau deddfwriaethol
Adnodd benodol	117	Mae hyn yn cynrychioli costau dau aelod o staff a fydd yn cael eu cyflogi i gefnogi'r gwaith o gynnal rhaglen diwygio etholiadol helaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd - gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth gymhleth hon yn glir ac yn ymarferol - yn ogystal â hyrwyddo ein rhaglen addysg i bleidleiswyr, a phobl ifanc yn benodol.
	429	
<b>Cyfreithiol</b>		
Cyfreithiol	80	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gyfanswm cost darparu cymorth cyfreithiol i swyddogaethau cyngor, arweiniad a rheoleiddio'r Comisiwn. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi datblygu unrhyw argymhellion polisi, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyfredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddu etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cyngor ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru a sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni ei rwymedigaethau atebolrwydd i'r Senedd.

<b>2023-24</b>		<b>Sylwadau</b>
<b>Costau'r Senedd</b>	<b>(£000s)</b>	
<b>Rheoleiddio</b>		
Cofrestru ac adrodd	72	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu gwariant clir a hawdd ei ddefnyddio, rhoddion a chanllawiau adrodd ar ôl y bleidlais. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn darparu hyfforddiant, seminarau pwrpasol a chymorthfeydd cynghori i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantau, i sicrhau dealltwriaeth o'r cyfreithiau a lefelau uchel o gydymffurfiaeth, gan gynnwys yn benodol ag unrhyw ofynion newydd. Rydym yn darparu cymorth wedi'i dargedu i randdeiliaid wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol.
Monitro a gorfodi	65	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn cynnwys adolygu gweithgarwch ymgyrchu, a nodi unrhyw achos lle mae angen ymyrraeth ragweithiol i sicrhau bod ymgyrchwyr yn cydymffurfio, neu wneud gwaith gorfodi os oes angen. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) o fewn pob ardal Heddlu i roi cyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae ein gwasanaethau cynghori ar gael i'n holl endidau a reoleiddir a'n holl rhanddeiliaid.
Cymorth rheoleiddiol	50	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau statudol sydd eu hangen gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, megis adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, cofrestriadau blynyddol manylion pleidiau a chyflwyniadau blynyddol Datganiadau o Gyfrifon.
	267	
<b>Cyfathrebu, Polisi ac Ymchwil</b>		
Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol	41	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm ymgyrchoedd y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Bydd y swyddogion yn cefnogi tîm Cymru ar feysydd diwygio etholiadol yng Nghymru a byddant yn gallu helpu i gynhyrchu unrhyw wybodaeth i bleidleiswyr sy'n berthnasol i'r etholwyr. Byddant hefyd yn cefnogi gwaith partneriaeth i sicrhau bod

Costau'r Senedd	2023-24 (£000s)	Sylwadau
		grwpiau sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i bleidleisio yn deall unrhyw ddiwygiadau posibl.
Cyfathrebu a dysgu digidol	78	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm cyfathrebu a dysgu digidol y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar ein gwaith llythrennedd gwleidyddol presennol drwy ddatblygu adnoddau addysg newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, a darparu hyfforddiant a chymorth i athrawon ar sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn. Byddwn hefyd yn parhau i wneud gwaith ymgynghori gyda'n partner llais ieuencid a phobl ifanc ledled Cymru, i gael eu hadborth a'u mewnbwn ar ein hadnoddau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Byddwn yn dechrau datblygu prosiectau addysg gymunedol, gan ddatblygu adnoddau i'w defnyddio ymhlith grwpiau sydd wedi eu tan gofrestru a grwpiau sydd wedi ymddieithrio.</p> <p>Mae hyn hefyd yn cynnwys ein gwaith cyfathrebu digidol. Mae ein tîm cyfathrebu digidol yn datblygu ac yn cynnal ein gwefan ddwyieithog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gefnogi cyhoeddi gwybodaeth ar draws y Comisiwn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ein rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.</p>
Cyfathrebu allanol	68	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm cyfathrebu allanol y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff ei amser ei dreulio. Mae hyn yn cynnwys ymdrin ag ymholiadau adweithiol gan y wasg a materion cyhoeddus; ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau ar gyfer cyhoeddiadau rheoleiddio arferol ac adroddiadau'r Comisiwn, a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd ag Aelodau'r Senedd. Bydd cefnogaeth swyddfa'r wasg a materion cyhoeddus yn cynyddu ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud ag agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru.
Ymchwil	47	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau ymchwil gan gynnwys yr arolwg blynyddol o agweddau'r cyhoedd ac asesu cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol.

<b>Costau'r Senedd</b>	<b>2023-24 (£000s)</b>	<b>Sylwadau</b>
Polisi	53	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau dadansoddi polisi i gefnogi datblygiad polisi a deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.
	287	
Cyfanswm Costau Uniongyrchol	983	
<b>Costau Anuniongyrchol</b>		
Adnodd	304	5% o gostau swyddfa gefn, gan gynnwys rhent, cyfraddau, TGCh, cyllid, Adnoddau Dynol a chostau rheoli
Dibrisiant	127	5% o'r dibrisiant ar gyfer gwariant cyfalaf, gan gynnwys uwchraddio'r system Cyllid Gwleidyddol a systemau eraill
	431	
Cyfanswm Costau Anuniongyrchol	431	
Cyfanswm cyfraniad	1,414	